

Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG)

11 Tachwedd 2020



Yn bresennol

John Hamer, Eluned Jones, Phil Coates, Rebecca Rees, Rafe Osborne (Llywodraeth Cymru), **Adrian Judd a Rachel Mulholland** (Cefas), **Lucie Skates, Karen Perrow a Lee Murray** (CNC), **Mike Butterfield** (RYA Cymru), **Mel Nicholls ac Abby Haines** (MMO), **Rosie Kelly** (Ystadau'r Goron), **Emily Williams a Claire Stephenson** (RSPB), **Manon Kynaston** (Ynni Môr Cymru), **Kam Tang a Ruth Callaway** (Prifysgol Abertawe), **Jillian Whyte** (JNCC), **Mark Russell** (Mineral Products Association), **Stephen Jay** (Prifysgol Lerpwl), **Jetske Germing** (PCF), **Peter Barham** (SUDG), **Emma McKinley a Katie Havard-Smith** (Partneriaeth Afon Hafren), **Clare Trotman** (MCS), **Phil Horton** (RYA), **Michael Igoe** (UK Chamber of Shipping), **Martin O'Meara** (Llywodraeth Iwerddon), **Rhona Fairgrieve, Abi Cowing, Elspeth McIntyre a Ria McCann** (Atkins)

1. Rhoddwyd y newyddion diweddaraf i'r grŵp ar nifer o ddogfennau Cynllunio Morol sydd wedi'u llunio neu sydd ar waith. Nodwyd bod blwyddyn ers i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru gael ei fabwysiadu ar 12 Tachwedd. Ers ei gyhoeddi aeth y tîm ati i ddatblygu amrywiaeth o waith i gefnogi gweithredu'r cynllun a thrafodwyd nifer o'r eitemau hyn yn fanwl yn ystod y cyfarfod
2. Rhoddwyd y newyddion diweddaraf ar adroddiad a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru [yr wythnos ddiwethaf](#) yn edrych ar arferion presennol o ran iawndal a lliniaru ar lefel prosiect. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y gofynion deddfwriaethol ar gyfer safleoedd dynodedig yng Nghymru, yn arbennig ym maes ynni adnewyddadwy'r môr. Comisiynwyd ABPMer i lunio'r adroddiad a thynnwyd sylw at nifer o feysydd i'w trafod ymhellach â rhanddeiliaid.
3. Gwnaeth Llywodraeth Iwerddon roi diweddariad ar ei Fframwaith Cynllunio Morol Cenedlaethol (NMPF) a fu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar. Daeth 225 o ymatebion i law ar gyfer yr ymgynghoriad. Aethpwyd i'r afael â nifer o feysydd yn y Cynllun gan gynnwys polisi a mapiau Asedau Treftadaeth. Daeth sylwadau defnyddiol i law am faterion trawsffiniol oddi wrth awdurdodau cynllunio morol cyfagos yn Llywodraeth Cymru a'r Sefydliad Rheoli Morol. Bydd y Fframwaith Cynllunio Morol Cenedlaethol yn cael ei anfon ar gyfer cymeradwyaeth Gweinidogol yn ystod gaeaf 2020 a bydd y Fframwaith a gymeradwywyd yn cael ei anfon i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mawrth 2021.
4. Mae'r tîm Cynllunio Morol yn mabwysiadu dull gofodol ar gyfer cynllunio morol sy'n cynnwys datblygu'r Porthol Cynllunio Morol ymhellach, datblygu Canllawiau Lleoliadol ar gyfer Sectorau a nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol posibl i weithredu polisi diogelu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Cyflwynwyd papur gerbron y grŵp yn amlinellu'r dull gweithredu hwn a gofynnwyd am sylwadau.
5. Rhoddwyd y newyddion diweddaraf oddi wrth Atkins, a gontractiwyd i lunio Canllawiau Lleoliadol ar gyfer y sectorau dyframaethu, ynni'r llanw a ffrwd lanw. Bydd tri adroddiad Canllawiau Lleoliadol ar gyfer Sectorau yn cael eu llunio ar wahân.

6. Rhoddwyd y newyddion diweddaraf i'r grŵp ar y prosiect [Rheoli adnoddau naturiol morol mewn modd cynaliadwy](#) a ariannwyd gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Bu'r prosiect yn mynd rhagddo ers tair blynedd i ddarparu tystiolaeth a gafodd ei chasglu a'i dehongli i gefnogi amddiffyn yr amgylchedd morol a'i ddefnyddio mewn modd cynaliadwy. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar y sectorau ynni'r llanw, ffrwd lanw a dyframaethu. Mae AMBPMer yn gwneud y gwaith hwn erbyn mis Rhagfyr 2020 er mwyn iddo gael ei gwblhau erbyn dyddiad cau terfynol prosiect Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, sef mis Ebrill 2021. Roedd gweithdai wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid i drafod y prosiect terfynol wedi'u cynllunio. Ond yn sgil y sefyllfa bresennol y bwriad yw cynnal cyfarfodydd rhithwir.
7. Gan fod ynni adnewyddadwy a gwynt ar y môr yn flaenoriaeth strategol ar lefel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, cyflwynwyd papur gerbron y grŵp yn nodi'r gweithgarwch presennol a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio.

Ymholiadau at: Rebecca.Rees2@llyw.cymru